**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad - Siambr y cyngor, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Iau, 8 Mehefin 2023 am 2.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | W G Lewis | P Lloyd |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Phil Homes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): N L Matthews ac W G Thomas

---

## 4 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 18 Mai 2023 fel cofnod cywir.

## 6 Cylch Gorchwyl (Er gwybodaeth)

Darparwyd cylch gorchwyl y Pwyllgorau Trawsnewid Gwasanaethau 'er gwybodaeth'.

## 7 Trafodaethau am y Cynllun Gwaith (Llafar)

Manylodd y Cadeirydd ar y pynciau arfaethedig ar gyfer Cynllun Gwaith 2023-2024:

- Cynllun Gwaith Coridor Glannau Afon Tawe (i gynnwys gwelliannau, cyfleoedd grant a'r potensial am unrhyw gyfleoedd cludiant, gan gynnwys y Metro, tacsis afon etc.).
- Prosiectau Strategaeth Bae Abertawe (Cyfeiriodd y Cadeirydd at gynnull gweithdy ac awgrymodd y byddai hwn yn cael ei gynnal am 4pm ar ddyddiad i'w gadarnhau i ganiatáu i Swyddogion/Aelodau ddod iddo).
- Cynllun Rheoli Cyrchfannau.
- Adolygu Polisi Dyrannu Tai'r cyngor.
- Cynnal a chadw'r isadeiledd ffyrdd.
- Cynllun Cyflawni'r Economi Leol
- Rhaglen Cyflwyno Rhagor o Dai.

**Penderfynwyd:** -

1) Cymeradwyo'r pynciau a restrwyd uchod.
2) Cylchredeg y cynllun gwaith i'r pwyllgor.

## 8 Dyddiadau ac amserau cyfarfodydd yn y dyfodol (Trafodaeth)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol a ddarparwyd ar yr agenda.

**Penderfynwyd** cytuno ar gyfarfodydd Pwyllgor y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.12 pm

**Cadeirydd**